# Polisi a Chanllawiau i Ysgolion

## Canllawiau ar gyfer defnyddio Ystafelloedd Seibiant/Ymdawelu

Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Rhondda Cynon Taf

Medi 2019

# Cynnwys


1. Cyflwyniad...........................................................................................

2. Diffiniadau ...........................................................................................

3. Canllawiau Cyffredinol ..........................................................................

4. Strategaethau Seibiant/Ymdawelu ........................................................

5. Ystafell Seibiant/Ymdawelu Bwrpasol ....................................................

6. Ystafell Gwahanu Fewnol/Ardaloedd Cymorth Bugeiliol ...........................

7. Ystafell i'r Synhwyrau ac Ystafelloedd Eraill ar gyfer Cymorth Unigol .........

8. Disgyblion sy'n Dymuno Cael eu Rhyddhau o Weithgareddau'r Dosbarth ..

9. Ataliadau ................................................................................................

Atodiad 1 – Llythyr Enghreifftiol ..................................................................

Atodiad 2 – Rhestr Wirio Enghreifftiol .........................................................

Atodiad 3 – Cofrestr Cyfnodau Seibiant ......................................................

Atodiad 4 – Adroddiad Seibiannau ..............................................................

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau yma yn nodi gofynion ar gyfer defnyddio strategaethau seibiant ac ymdawelu, gan gynnwys ystafelloedd seibiant/ymdawelu pwrpasol yn ysgolion a lleoliadau addysg eraill Rhondda Cynon Taf. Nod y canllawiau yma yw gosod fframwaith cyffredinol i gynorthwyo holl ysgolion prif lif, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg eraill i lunio eu polisïau a'u gweithdrefnau penodol eu hunain mewn perthynas â defnyddio seibiant ac amser ymdawelu i fynd i'r afael ag ymddygiad disgyblion, a'i reoli. Dylai pob ysgol, gan gynnwys ysgolion prif lif, ystyried y ddogfen gyfan er mwyn rhoi'r canllawiau yn eu cyd-destun a'u gweld o'i safbwynt ei hunan.

1.2 Mae'r canllawiau yma yn bennaf am ddefnydd strategaethau seibiant neu ymdawelu, neu ystafelloedd i fynd i'r afael ag ymddygiad heriol, a'i reoli. Serch hynny, mae Adran 7 yn ymdrin ag ystafelloedd i'r synhwyrau ac ystafelloedd eraill sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cymorth unigol neu grŵp bach, yn rhan o raglen addysg unigol disgybl. Mae Adran 8 yn crynhoi'r canllawiau ar Ataliadau.

1.3 Mae sicrhau diogelwch, lles ac urddas plant a phobl ifainc mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn Rhondda Cynon Taf, yn hollbwysig (Deddf Plant 1989). Serch hynny, rhaid cydnabod bod modd i amgylchiadau godi lle bydd raid i staff ymyrryd os yw plentyn yn bryderus a gofidus iawn, ac yn dangos ymddygiad afreolus a heriol. Mae'n bosibl defnyddio seibiant neu amser ymdawelu yn rhan o'r amryw strategaethau sydd ar gael i staff er mwyn helpu'r disgybl i reoli'i ymddygiad a dychwelyd i'w weithgareddau addysgol arferol.

1.4 Rhaid pwysleisio fodd bynnag y dylid defnyddio seibiant/amser ymdawelu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig (mae hyn yn wir am unrhyw ymyrraeth rwystrol) ac ar ôl i'r holl strategaethau ataliol eraill gael eu defnyddio.

1.5 Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Ragweithiol

Mae angen i'n holl bolisïau a chanllawiau barchu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagweithiol. Mae Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor ac i ysgolion fod yn rhagweithiol mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl ac i gymryd camau rhesymol i ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar wasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn 'rhagweithiol' o ran bod rhaid pwyso a mesur beth yw'r rhwystrau sy'n atal unigolion anabl rhag manteisio ar wasanaethau a chymryd rhan mewn profiadau ac ystyried camau gweithredu ymlaen llaw yn ei sgil.

# 2 Diffiniadau

2.1 Y ddealltwriaeth gywir o 'seibiant ac ymdawelu', yn ôl canllawiau a gafodd eu cyhoeddi ar y cyd gan yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau yn 2002, yw hyn:

*“cyfyngu ar gyfle y defnyddiwr gwasanaeth*

*i fanteisio ar bob atgyfnerthiad cadarnhaol, a hynny yn rhan o'r rhaglen ymddygiadol"*

2.2 Mae seibiant ac ymdawelu yn rhan o'r ystod o ymyriadau sy'n cael eu defnyddio i helpu disgyblion i reoleiddio a/neu reoli'u hymddygiad. Mae'n cael ei defnyddio yn strategaeth ragweithiol wrth hunan-dawelu ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion feddwl am yr hyn y maen nhw wedi ei wneud. Fel arfer, bydd seibiant ac ymdawelu yn cael eu rhoi ar waith yn rhan o gynllun cynnal ymddygiad strwythuredig.

2.3 Diben defnyddio mesurau 'seibiant ac ymdawelu' yw cyflawni newid yn ymddygiad y disgybl dros gyfnod o amser, o'u defnyddio ochr yn ochr ag ymyriadau ymddygiadol eraill yn rhan o gynllun ymddygiad neu raglen cymorth bugeiliol unigol. Yn ogystal â hyn, dylai'r disgybl dderbyn cymorth yn dilyn profiad o seibiant ac ymdawelu er mwyn ei helpu i ddewis ymddygiadau amgen posibl.

2.4 Dylai seibiant ac ymdawelu fod yn wahanol i '**neilltuaeth**' sy'n golygu gorfodi plentyn neu berson ifanc i dreulio amser ar ei ben ei hun, heb oruchwyliaeth na chymorth uniongyrchol, ac yn erbyn ei ewyllys (Cyfarwyddyd yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau ar y cyd, Gorffennaf 2002). Mae neilltuaeth yn cael ei gweld yn fodd i fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri risg i'r person ac i eraill, a'i reoli. Mae'n rheoli'r ymddygiad dan sylw dros gyfnod byr. Does dim gwerth therapiwtig i'r person sy'n derbyn y driniaeth ac mae'n bosibl y bydd neilltuaeth yn cael effaith anffafriol ar yr unigolyn. Barn Sefydliad Anawsterau Dysgu Prydain (BILD) yw bod neilltuaeth yn niweidiol i lawer o bobl sydd ag anabledd deallusol a/neu awtistiaeth, yn ogystal â phlant a phobl ifainc â phroblemau cymdeithasol emosiynol dwys (Ffeithlen: 'Time Out and Seclusion', Hydref 2009)

2.5 Felly, mae Rhondda Cynon Taf, yn disgwyl i ysgolion a lleoliadau addysg eraill **beidio** â defnyddio **neilltuaeth** yn strategaeth i ddod i fynd i'r afael ag ymddygiad heriol iawn, a'i reoli.

2.6 Ar y llaw arall, mae '**cymryd seibiant**' yn golygu symud y person, ambell waith heb ei ganiatâd, o sefyllfa sy'n achosi pryder neu ofid, i leoliad lle y mae modd i rywun ei helpu a'i wylio trwy'r amser, nes ei fod yn barod i barhau gyda'i weithgareddau arferol.

2.7 Dylid nodi bod defnydd ysgolion o'r termau 'seibiant', 'ymdawelu' a 'neilltuaeth' yn amrywio wrth ddisgrifio ystod o strategaethau a deilliannau sy'n rhan o ddilyniant o ymyriadau i reoli ymddygiad mewn modd cadarnhaol. (Gweler Adrannau 3 a 4). Serch hynny, dyma argymell i ysgolion ddefnyddio'r termau yn unol â'r diffiniadau uchod.

## 3 Canllawiau Cyffredinol

3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystyried ei bod hi'n hanfodol bwysig bod gyda phob ysgol bolisi ymddygiad ysgol gyfan sydd wedi'i fynegi'n glir, sy'n datganoli'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol ac sydd wedi'i rannu gyda llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Nod y canllawiau yma yw sicrhau bod fframwaith cyffredinol i gynorthwyo pob ysgol/ysgol arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, i lunio polisïau a

gweithdrefnau penodol mewn perthynas â defnyddio seibiant ac ymdawelu ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion.

3.2 Mae rhai ysgolion yn cynnwys strategaethau seibiant ac ymdawelu i ddisgyblion sy'n ymddwyn yn amhriodol yn rhan o'u polisïau ymddygiad. Mae'n bosibl y bydd gwahanu disgybl o sefyllfa benodol yn ei helpu i ymddwyn yn briodol.

3.3 Mae ysgolion yn cael eu cynghori i gyfeirio at eu polisi seibiant ac ymdawelu yn y prosbectysau maen nhw'n eu rhoi i rieni. Dyma baragraff enghreifftiol:

*Gwnawn bopeth o fewn ein gallu yn ein hysgol i reoli ymddygiad yn gadarnhaol. Er hyn, ar adegau, mae'n bosibl y byddwn ni angen defnyddio seibiant ac ymdawelu i gadw plant neu blentyn yn ddiogel, neu i gynnal trefn dda yn yr ysgol.*

3.4 Ddylai ysgol ddim dod i benderfyniad ynglŷn â sefydlu strategaethau seibiant ac ymdawelu cyn ymgynghori â chymuned yr ysgol, yng nghyd-destun llunio neu adolygu polisi ymddygiad yr ysgol.

3.5 Ddylai strategaethau seibiant ac ymdawelu ddim cael eu defnyddio yn gosb, i fygwth plant, eu bychanu neu i godi ofn arnyn nhw nac yn fodd tynnu plant o'r dosbarth am gyfnod amhenodol.

3.6 Rhaid i staff gael eu neilltuo i fonitro'r disgybl trwy'r amser mewn ystafell seibiant/ymdawelu. Rhaid bod modd i staff weld a chlywed y disgybl ar bob adeg.

3.7 Mae'n bosibl fydd seibiant ddim yn effeithiol ar gyfer pob plentyn. Mae pob plentyn yn unigryw ac mae'n bosibl y byddai angen strategaethau eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol.

## 4 Strategaethau Seibiant/Ymdawelu

4.1 Mae modd i athro orfodi disgybl i gymryd seibiant neu mae modd i'r disgybl ddewis gwneud hynny mewn sefyllfa lle mae dan bwysau, a hynny mewn amgylchedd diogel a chyfarwydd i bawb.

4.2 Dylid defnyddio'r strategaeth seibiant ac ymdawelu am y cyfnod lleiaf posibl sy'n angenrheidiol i'r disgybl ymdawelu fel bod modd iddo ddychwelyd yn ddiogel i'r dosbarth. Serch hynny, rhaid cydnabod bydd rhai disgyblion angen cyfnodau hwy i ymdawelu.

4.3 Dylid cyfathrebu a chyfleu'r gweithdrefnau ar gyfer defnyddio strategaethau seibiant ac ymdawelu i bob disgybl, rhiant, cynhaliwr ac i bob aelod o staff yr ysgol. Dylid cynnwys gwybodaeth i rieni a chynhalwyr am y camau i'w dilyn pan fo pryderon neu gwynion gyda nhw ynghylch y defnydd o'r strategaeth seibiant ac ymdawelu.

4.4 Rhaid i unrhyw ddefnydd o strategaeth seibiant ac ymdawelu gymryd i ystyriaeth ffactorau fel oedran, cefndir diwylliannol, ac anghenion unigol y disgybl, yn ogystal ag unrhyw anabledd, a lefel ei ddatblygiad. Bydd y strategaeth seibiant ac ymdawelu sy'n cael ei dewis yn dibynnu ar y canlynol:

- Difrifoldeb neu amlder yr ymddygiad
- Lefel y tarfu ac amharu ar y dysgu
- Y risg o niwed i'r disgybl neu i eraill
- Y risg o ddifrod i eiddo

4.5 Dylai gweithdrefnau ar gyfer defnyddio strategaethau seibiant ac ymdawelu gynnwys camau wedi'u mynegi'n glir i'w dilyn os bydd disgybl yn methu â chydymffurfio â'r strategaeth seibiant ac ymdawelu, neu os dydy defnyddio'r strategaeth seibiant ac ymdawelu ddim yn llwyddiannus wrth reoli ymddygiad y disgybl. Byddai modd i hyn gynnwys asiantaethau eraill a rhieni/cynhalwyr.

4.6 Mae'r Awdurdod yn cynnig hyfforddiant **Team-Teach**. Mae hyn yn canolbwyntio ar strategaethau tawelu yn ogystal â thechnegau ymyrraeth gorfforol. Mae'n rhoi'r sgiliau rheoli ymddygiad priodol i staff er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle y mae'n bosibl y byddan nhw'n wynebu ymddygiad pryderus, anghyfeillgar neu dreisgar.

## 5 Ystafelloedd Seibiant/Ymdawelu Pwrpasol

5.1 Dylai ystafell seibiant ac ymdawelu bwrpasol gael ei defnyddio yn rhan o gyd-destun polisi ymddygiad yr ysgol yn unig, ac yn dilyn ymgynghoriad llawn â chymuned yr ysgol.

5.2 Dylid defnyddio ystafell seibiant ac ymdawelu bwrpasol gyda disgybl dim ond pan fydd ymyriadau llai ymwthiol wedi methu â rheoli'r ymddygiad, a hynny ar ôl eu rhoi ar waith a'u dogfennu.

5.3 Mae'r ystafell seibiant ac ymdawelu yn rhywle i ddisgybl ymdawelu'n ddiogel, ail-ennill ei hunanreolaeth, ac ymbaratoi i gyflawni disgwyliadau i ddychwelyd i'r dosbarth. Rhaid defnyddio ystafelloedd seibiant ac ymdawelu ar y cyd â chynllun ymyrryd ymddygiadol sy'n golygu symud y disgybl i fan sy'n cael ei goruchwylio er mwyn hwyluso hunanreolaeth, neu i dynnu disgybl o sefyllfa a fydd o bosibl yn beryglus.

5.4 Dylai'r Pennaeth sicrhau fod y rhieni a'r cynhalwyr yn cael gwybod bob tro y mae'r ystafell seibiant ac ymdawelu bwrpasol yn cael ei defnyddio ar gyfer eu plentyn. Mae modd gwneud dros y ffôn, neu drwy lythyr. Mae **Atodiad 1** yn nodi patrwm enghreifftiol i chi.

5.5 Os bydd disgybl penodol yn defnyddio'r ystafell seibiant ac ymdawelu bwrpasol yn rheolaidd, dylid ystyried gwneud atgyfeiriad, neu ailatgyfeiriad, i'r Garfan Cynnal Ymddygiad er mwyn llunio neu fireinio unrhyw gynllun ar gyfer cynnal ymddygiad y disgybl. Dylid llunio neu fireinio'r cynllun drwy ymgynghori â'r rhieni neu'r cynhalwyr, a'i ddogfennu.

5.6 Rhaid ystyried y canlynol mewn perthynas â'r ystafell seibiant ac ymdawelu:

- Rhaid cynnal asesiad risg er diogelwch disgyblion a staff
- Rhaid darparu gweithgaredd addysgol ystyrlon i'r disgybl a rhaid i'r ystafell fod ag awyr iach, golau a gwres digonol
- Rhaid i'r ystafell hefyd fod â lle digonol i ddisgyblion a staff
- Rhaid trefnu egwyl i'r disgybl fynd i'r tŷ bach neu fwyta, os yw'r seibiant yn digwydd yn ystod y cyfnodau yma

- Rhaid i amgylchedd yr ystafell fod yn ffafriol ac yn addas at dawelu ymddygiad amhriodol
- Fydd yr ystafell **ddim** yn cael ei chloi neu'i chau mewn unrhyw ffordd a fyddai'n rhwystro staff neu ddisgyblion rhag ei gadael mewn argyfwng
- Dylid goruchwylio'r ystafell ar bob adeg
- Dylai rheolau ymddwyn gael eu harddangos yn yr ystafell
- Dylai rheolau a disgwyliadau'r ysgol gael eu harddangos yn yr ystafell
- Dylai cymorth gweledol gael ei arddangos sy'n dangos strategaethau ymdawelu ac ymddygiad priodol

Mae **Atodiad 2** yn dangos rhestr wirio enghreifftiol ar gyfer trefnu ystafell seibiant ac ymdawelu bwrpasol.

5.7 Dylai'r Pennaeth sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o ddefnydd yr ystafell bwrpasol, sy'n nodi enw pob disgybl unigol a phob ymweliad â'r ystafell. Mae hyn yn golygu cadw cofnod cywir o'r canlynol:

- amlder y defnydd
- digwyddiadau blaenorol sydd wedi arwain at yr ymddygiad
- yr ymddygiad ei hunan a arweiniodd at ddefnyddio'r ystafell
- yr ymddygiad a gafodd ei arsylwi yn yr ystafell
- hyd y cyfnod yr oedd y disgybl yn yr ystafell

Mae **Atodiad 3** yn rhoi enghraifft o'r cofnod yma.

5.8 Hefyd, rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod cofrestr o ddefnydd yr ystafell yn cael ei chadw.

- Dylai'r gofrestr yma gofnodi faint o weithiau cafodd yr ystafell ei defnyddio, a faint o ddisgyblion a'i defnyddiodd.
- Dylid adrodd ar ddefnydd yr ystafell i gorff llywodraethu'r ysgol neu bwyllgor rheoli priodol. Dylai'r wybodaeth yma hefyd fod ar gael i'r Awdurdod Lleol yn ôl y gofyn.
- Dylai data am yr ystafell bwrpasol gael ei ddefnyddio i asesu effeithiolrwydd y strategaeth wrth adolygu polisi ymddygiad yr ysgol neu'r darparydd addysg.
- Dylai copi o gofnod defnydd yr ystafell bwrpasol gael ei anfon at Wasanaeth Cynnal Ymddygiad yr Awdurdod bob tymor

Mae **Atodiad 4 a 5** yn rhoi enghraifft o'r ffurflen cofnodi defnydd.

5.9 Mae'r Awdurdod Lleol â dyletswydd monitro defnydd ystafelloedd seibiant ac ymdawelu Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys:

- Dadansoddi data'r ysgolion ar eu defnydd o'r ystafelloedd pwrpasol
- Codi unrhyw faterion sydd yn deillio o'r dadansoddiad gyda'r Pennaeth, lle bo angen
- Sicrhau bod canllawiau defnyddio ystafelloedd seibiant ac ymdawelu pwrpasol yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau ymddygiad cadarnhaol ysgolion
- Adrodd yn flynyddol ar ddefnydd yr ystafelloedd pwrpasol i'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ysgolion

## 6 Ystafell Gwaharddiadau Mewnol/Ardaloedd Cymorth Bugeiliol

6.1 Mae modd i ysgolion, yn arbennig yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, ddewis gwahanu disgyblion yn ystod diwrnod yr ysgol er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd yn yr ysgol a fydd o bosibl yn gwaethygu, er mwyn osgoi gwaharddiad tymor penodol neu barhaol (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 001/2004 – Adolygwyd mis Medi 2012. Rhif y ddogfen: 081/2012 – *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.*

6.2 Mae modd i waharddiad mewnol olygu symud plentyn i ardal neu ystafell ddynodedig yn yr ysgol, gyda chefnogaeth briodol, neu i ddosbarth arall dros dro. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn defnyddio gwaharddiadau mewnol wedi'u cynllunio yn ymateb i ymddygiad amhriodol sydd yn aml yn tarfu ar eraill. Mae gwaharddiad mewnol yn dangos bod yr ymddygiad yn amhriodol, yn rhoi amser i'r disgybl feddwl am ei ymddygiad ac i staff weithio gyda'r disgybl a rhieni/cynhalwyr er mwyn ail-integreiddio'r disgybl i'w ddosbarthiadau arferol.

6.3 Yn gyffredinol, mae ardaloedd neu ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaharddiadau mewnol yn wahanol i'r ystafelloedd y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn ystafelloedd seibiant/ymdawelu. Yn ôl y canllawiau yma, dydy'r ystafelloedd yma **ddim** yn cael eu defnyddio at ddiben seibiant/ymdawelu. Serch hynny, dylid nodi'r canlynol:

- Dylai ystafelloedd neu ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaharddiadau mewnol gael eu goruchwylio ar bob adeg
- Dylai gwaharddiadau mewnol gael eu defnyddio yn rhan o gynllun ymddygiad cadarnhaol unigol er mwyn osgoi gwaharddiad tymor penodol neu barhaol
- Dylai'r defnydd o waharddiadau mewnol gael eu cynnwys ym mholisi a gweithdrefnau'r ysgol gyfan
- Dylai'r defnydd o wahardd mewnol gael ei gofnodi'n gywir ar gyfer pob disgybl unigol
- Dylid rhoi gwybod i rieni/cynhalwyr am y defnydd o wahardd mewnol yn rhan o'r cynlluniau i reoli ymddygiad y disgybl
- Dylai data ar ddefnydd gwahardd mewnol gael ei gyflwyno i'r corff llywodraethu yn rhan o adolygu rheolaidd y polisi a'r ymarfer ymddygiad cadarnhaol

## 7 Ystafell i'r Synhwyrau ac Ystafelloedd Eraill ar gyfer Cymorth Unigol

7.1 Rydyn ni'n deall y bydd disgyblion yn cael eu tynnu o ddosbarthiadau yn aml, a hynny'n rhan o'u rhaglenni addysg unigol er mwyn derbyn cymorth i gyflawni targedau dysgu penodol. Mae modd i hyn gynnwys defnyddio ystafelloedd i'r synhwyrau i wella integreiddiad synhwyrau'r disgybl trwy ddarparu ysgogiadau sain, arogl, cyffwrdd a golau penodol wedi'u targedu. Bydd rhai ysgolion yn dewis creu ystafelloedd ar gyfer ymlacio a chwnsela. Bydd ystafelloedd bach yn cael eu defnyddio'n aml i roi cymorth a chyflwyno rhaglenni addysgol penodol i unigolion neu i grwpiau bach.

7.2 Dylai ysgolion a lleoliadau addysg eraill sicrhau bod yr ystafelloedd/mannau yma yn ddiogel, a hynny trwy gynnal asesiadau risg priodol ar gyfer pob gweithgaredd a fydd yn cael ei gynnal ynddyn nhw, gan sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dylai staff sy'n gweithio gyda disgyblion mewn ystafelloedd o'r fath fod wedi eu hyfforddi ynghylch eu defnydd ac unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gynnal ynddyn nhw.

7.3 Dydy ystafelloedd i'r synhwyrau nac ystafelloedd/mannau sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno rhaglenni addysg unigol ddim yn cael eu hystyried yn ystafelloedd seibiant/ymdawelu. Felly, fydd dim angen cofnodi neu gofrestru eu defnydd yn yr un modd ag ystafelloedd seibiant/ymdawelu pwrpasol. Dydy'r Awdurdod Lleol **ddim** yn argymell y dylai ystafelloedd o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau seibiant ac ymdawelu.

## 8 Disgyblion sy'n Dymuno Mynd i'r Ystafell Seibiant/Ymdawelu

8.1 Mae'n eithaf cyffredin i ysgolion roi caniatâd i ddisgyblion adael y dosbarth a mynd i ystafell neu fan bwrpasol i ymdawelu, a hynny gydag aelod o staff yn bresennol, os yw'r disgybl dan sylw yn dechrau pryderu neu gynhyrfu. Yn aml, mae hyn yn rhan o gynllun ymddygiad unigol ac yn strategaeth ddefnyddiol i alluogi'r disgybl i wella sut y mae'n rheoli ei emosiynau a'i annibyniaeth. Wrth wneud hyn, bydd modd i'r disgybl ddechrau cymryd cyfrifoldeb dros ei ymddygiad a'i ddysgu.

8.2 Yn aml, mae cardiau “seibiant ac ymdawelu” yn cael eu rhoi i ddisgyblion. Maen nhw'n cael dangos y rhain i athrawon fel bod modd eu rhyddhau o'r dosbarth. Serch hynny, dydy'r strategaethau yma **ddim** yn strategaethau seibiant/ymdawelu yn ôl diffiniad y canllawiau yma. Yn hytrach, maen nhw'n rhan o ystod ehangach o strategaethau ymddygiad y mae modd i ysgolion eu defnyddio i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad plentyn a'i effaith ar aelodau eraill cymuned yr ysgol.

8.3 Dyma rai awgrymiadau i ysgolion wrth ddefnyddio strategaethau o'r fath gyda disgybl:

- Dylai rhoi caniatâd i ddisgybl sy'n dymuno cael ei ryddhau fod yn rhan o'i gynllun ymddygiad unigol a dylai hyn fod wedi ei drafod â'r disgybl a'i rieni/cynhalwyr
- Dylid rhoi gwybod i aelodau staff eraill am y cynllun er mwyn osgoi camddealltwriaeth
- Dylai'r cynllun nodi ystafell neu fan ddynodedig sydd o dan oruchwyliaeth i'r disgybl fynd iddi
- Dylai staff gofnodi pryd mae'r disgybl yn dewis gadael gweithgareddau'r dosbarth, ac adolygu'r data i weld a oes tueddiadau
- Dylai'r disgybl, staff yr ysgol a'r rhieni/cynhalwyr adolygu'r cynllun yn rheolaidd er mwyn monitro ei effeithiolrwydd mewn perthynas â gwella ymgysylltiad ac annibyniaeth y disgybl

8.4 **Dylai ysgolion fod yn effro i'r ffaith y dylai disgyblion gael eu goruchwylio trwy'r amser. Hefyd, dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod disgyblion yn dweud wrth aelod o staff priodol pryd bynnag maen nhw'n cael eu rhyddhau o'r dosbarth, a hynny fel bod dim modd iddyn nhw**

**gael cyfle i adael y safle neu grwydro adeiladau'r ysgol heb oruchwyliaeth.**

## 9 Ataliadau

9.1 Weithiau, mae ysgolion yn defnyddio ystafelloedd penodol i gynnal ataliadau yn ystod amser cinio neu ar ôl yr ysgol. Serch hynny, dydy ataliad **ddim** yn gyfnod seibiant neu ymdawelu yn ôl y diffiniad yn y canllawiau yma.

9.2 Mewn perthynas ag ataliadau, rhaid dilyn y canllawiau sydd wedi'u diweddaru yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 47/2006, Adran 3, Atodiad 3ii, *Atal Disgyblion: Y Gyfraith a sut i'w Chymhwyso*. Mae hyn yn nodi bod Adran 92 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn egluro bod gydag ysgolion yr awdurdod i gadw disgyblion ar ôl yr ysgol yn fodd disgyblu.

9.3 Dylai ataliadau fod yn rhesymol ac yn gymesur i'r hyn y mae'r disgybl wedi'i wneud, a dylai staff sy'n pennu'r gosb gymryd i ystyriaeth y canlynol:

- Oedran y plentyn
- Unrhyw anghenion addysgol arbennig
- Unrhyw anghenion crefyddol
- A oes modd i rieni/cynhalwyr y plentyn drefnu i'r plentyn deithio adref o'r ysgol ar ôl y gosb yn weddol hawdd

9.4 Dylai'r gweithdrefnau gosod ataliadau fod yn rhan o bolisi ymddygiad yr ysgol.

9.5 Does dim rhaid i staff, o reidrwydd, sy'n goruchwylio ataliadau fod yn athrawon. Serch hynny, dylai ataliadau gael eu cynnal mewn modd sy'n cyfateb i gontractau staff ac i'r Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith.

9.6 Rhaid i ysgolion roi o leiaf 24 awr o rybudd o'r ataliad i'r rhiant neu'r cynhaliwr ac eithrio os yw'r gosb yn cael ei chynnal yn ystod amser cinio.

9.7 Yn gyffredinol, ddylai gofyniad i aros yn y dosbarth neu mewn ystafell arall yn yr ysgol ddim cael ei orfodi trwy ddefnyddio grym. Yr unig sefyllfa lle y byddai modd cyfiawnhau defnyddio grym yw lle bo'r staff cysylltiedig o'r farn y byddai caniatáu i'r disgybl adael yn peri risg difrifol i ddiogelwch y disgybl neu unigolion eraill.

9.8 Mae'n hanfodol bod staff a disgyblion yn cael egwyl resymol amser cinio er mwyn bwyta, yfed a defnyddio'r tŷ bach. Ddylai hyd ataliadau amser cinio ddim golygu y bydd aelod staff neu ddisgybl yn cael eu hamddifadu o'u hawl i'r pethau yma.

9.9 Dylai'r amser y mae'r disgybl yn ei dreulio mewn ataliad gael ei ddefnyddio'n adeiladol ac er mwyn sicrhau'r deilliant gorau.

9.10 Dylai ysgolion gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ataliadau a'r rhesymau dros eu cynnal.

**ATODIAD 1**

Llythyr enghreifftiol

Ysgol ____________________________________

Dyddiad: ______________________________

Mae'r llythyr yma yn rhoi gwybod i chi am ddefnydd yr Ystafell Seibiant/Ymdawelu heddiw gyda'ch mab/merch____________________, Blwyddyn ______, yn unol â Pholisi Ymddygiad yr Ysgol.

Cafodd yr Ystafell Seibiant/Ymdawelu ei defnyddio gyda'ch mab/merch rhwng ______(amser) a ______ (amser) achos

Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol er mwyn trafod yr ymddygiad a arweiniodd i'ch plentyn orfod mynd i'r Ystafell Seibiant/Ymdawelu.

Yn gywir,

**ATODIAD 2 – Rhestr Wirio Enghreifftiol**

**Mae'r Ystafell Seibiant/Ymdawelu Bwrpasol....**

- wedi ei defnyddio gyda chefnogaeth cymuned yr ysgol a'i chynnwys yn rhan o ystod o ymyriadau ymddygiad ym mholisi ymddygiad yr ysgol
- wedi bod yn destun asesiad risg er diogelwch disgyblion a staff
- yn caniatáu i weithgaredd ystyrlon addysgol gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion
- ag awyr iach, golau a gwres digonol
- â lle digonol i ddisgyblion a staff
- yn caniatáu egwyl i'r disgybl fynd i'r tŷ bach neu fwyta, os yw'r seibiant yn digwydd yn ystod y cyfnodau yma
- yn ffafriol ac yn addas at dawelu ymddygiad amhriodol
- yn cael ei gadael heb ei chloi neu'i chau mewn unrhyw ffordd a fyddai'n rhwystro staff neu ddisgyblion rhag ei gadael mewn argyfwng
- yn cael ei goruchwylio ar bob adeg
- yn arddangos rheolau ymddygiad
- yn arddangos rheolau a disgwyliadau'r ysgol
- yn arddangos cymorth gweledol fel strategaethau ymdawelu ac ymddygiad priodol

**Cyfathrebu a Gwerthuso**

- Mae pob disgybl, rhiant, cynhaliwr ac aelod staff wedi derbyn gwybodaeth am y gweithdrefnau defnyddio cyfnodau seibiant neu ymdawelu
- Mae staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant ynghylch gweithdrefnau defnyddio'r ystafell seibiant/ymdawelu bwrpasol
- Mae cofnod yn cael ei gadw o ddefnydd yr ystafell bwrpasol, sy'n nodi enw pob disgybl unigol a phob ymweliad â'r ystafell
- Mae gweithdrefnau wedi eu llunio i roi gwybod i rieni neu gynhalwyr am ddefnydd yr ystafell seibiant/ymdawelu gyda'u plentyn
- Mae gweithdrefnau wedi eu llunio ar gyfer atgyfeirio neu ailatgyfeirio at y Garfan Cynnal Ymddygiad

- Mae cofrestr o ddefnydd yr ystafell seibiant/ymdawelu bwrpasol yn cael ei chadw ac yn cael ei hanfon at yr Awdurdod Addysg bob tymor

- Mae gweithdrefnau i'w dilyn os dydy disgybl ddim yn cydymffurfio â rheolau defnyddio'r ystafell seibiant/ymdawelu neu os dydy defnydd yr ystafell ddim wedi llwyddo i reoli ymddygiad y plentyn

- Mae data ar ddefnydd yr ystafell seibiant/ymdawelu yn cael ei ddefnyddio i asesu ei heffeithiolrwydd mewn perthynas â chynorthwyo disgyblion unigol

- Mae data yr ystafell bwrpasol yn cael ei ddefnyddio i asesu effeithiolrwydd y strategaeth wrth adolygu polisi ymddygiad yr ysgol yn rheolaidd

**ATODIAD 3: Defnyddio'r Ystafell Seibiant/Ymdawelu (ffurflen enghreifftiol)**

| Dyddiad | Enw'r Disgybl | Blwyddyn | Amser Cyrraedd | Amser Gadael | Yr aelod o staff sy'n goruchwylio | Y digwyddiad a'r ymddygiad blaenorol a arweiniodd at ddefnyddio'r ystafell | Wedi clywed adroddiadau'r staff a'r disgybl (do/naddo) | Wedi rhoi gwybod i Rieni/Cynhalwyr (ffôn/ llythyr a'r dyddiad) | Wedi rhoi cymorth dilynol (do/naddo) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

**ATODIAD 4**

# Adroddiad yr Ystafell Seibiant/Ymdawelu (Ysgolion Uwchradd)

## Adran 1: Manylion yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol: | |
| Tymor: | |

## Adran 2: Data

Nodwch nifer y disgyblion sydd wedi defnyddio'r ystafell seibiant/ymdawelu:

| Blwyddyn | Nifer y Disgyblion | Rhywedd | | Cyfnod y Cod Ymarfer (Gweithredu gan yr ysgol, Gweithredu gan yr ysgol a mwy, wedi cael datganiad, neu ddim yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | | Benyw | Gwryw | |
| Bl. 7 | | | | |
| Bl. 8 | | | | |
| Bl. 9 | | | | |
| Bl. 10 | | | | |
| Bl. 11 | | | | |
| Bl. 12/13 | | | | |
| Cyfanswm | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y weithiau unigol mae'r Ystafell Seibiant/Ymdawelu wedi'i defnyddio (e.e. gall rhai disgyblion fod wedi defnyddio'r ystafell mwy nag unwaith): | |

## Adran 3: Llofnod

| | |
|---|---|
| Wedi'i hanfon at y Garfan Cynnal Ymddygiad ar: | |
| Llofnod y Pennaeth: | |
| Dyddiad: | |

**ATODIAD 5**

# Adroddiad yr Ystafell Seibiant/Ymdawelu (Ysgolion Cynradd)

## Adran 1: Manylion yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol: | |
| Tymor: | |

## Adran 2: Data

Nodwch nifer y disgyblion sydd wedi defnyddio'r ystafell seibiant/ymdawelu:

| Blwyddyn | Nifer y Disgyblion | Rhywedd | | Cyfnod y Côd Ymarfer (Gweithredu gan yr ysgol, Gweithredu gan yr ysgol a mwy, wedi cael datganiad, neu ddim yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | | Benyw | Gwryw | |
| Dosbarth Meithrin | | | | |
| Derbynfa | | | | |
| Blwyddyn 1 | | | | |
| Blwyddyn 2 | | | | |
| Blwyddyn 3 | | | | |
| Blwyddyn 4 | | | | |
| Blwyddyn 5 | | | | |
| Blwyddyn 6 | | | | |
| Cyfanswm | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y weithiau unigol y mae'r Ystafell Seibiant/Ymdawelu wedi'i defnyddio(e.e. gall rhai disgyblion fod wedi defnyddio'r ystafell mwy nag unwaith): | |

## Adran 3: Llofnod

| | |
|---|---|
| Wedi'i hanfon at y Garfan Cynnal Ymddygiad ar: | |
| Llofnod y Pennaeth: | |
| Dyddiad: | |